**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**

7fed Hydref, 2021

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **Nos Lun nesaf, 11eg Hydref, 2021** am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Bryncroes. Byddwn yn ddiolchgar iawn os y gall pawb gadw at y rheolau COFID sydd mewn grym.

**R H A G L E N**

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg MEDI, 2021**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod materion yn codi.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

(a) Cais C21/0866/32/LL – addasu adeiladau allanol yn ddwy uned wyliau – Neigwl Ganol, Botwnnog
(b) Cais C21/0915/32/LL – dymchwel dwy sied amaethyddol bresennol a chodi sied newydd yn eu lle – Fair View, Llangwnnadl.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. **ARDAL NI 2035**
I ystyried e-bost a llythyr gan Swyddog Cefnogi Cymunedau.

Y ddwy ddogfen "Cyflwyniad Ardal Ni 2035 – Pen Llŷn" a "Sut le ydi Pen Llŷn" wedi eu hanfon drwy e-bost i chwi ar 21ain Medi, 2021.

8. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.

9. **YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO**
**Gohiriwyd yn y cyfarfod diwethaf.**
Gellir gweld y dogfennau ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb ar y wefan isod:
https://llyw.cymru/trethi-lleol-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-hunanddarpar
Os oes unrhyw un eisiau copi a wnewch adael i mi wybod.

10. **YMGYNGHORIAD ADRAN DRAFNIDIAETH LLYWODRAETH Y DG AR Y DEFNYDD PERYGLUS O FADAU DWR PERSONOL (Jet skis)**
Llythyr Liz Saville Roberts, AS Dwyfor Meirionydd
Copi'n amgaeeedig. "B"

11. **GWRTHWYNEBU CEISIADAU CYNLLUNIO AR SAIL PERYGL I'R GYMRAEG**
Llythyr Howard Huws, Cylch yr Iaith.
Copi'n amgaeedig. "C"

12. **MEDDYGFA RHYDBACH**
Cais am wirforddolwyr ar ddydd Sadwrn, 16eg, 23ain a'r 30ain Hydref pan yn rhoddi brechiadau COFID.

13. **MYNWENT LLANDEGWNNIG**
Adroddiad yr Is-bwyllgor gyfarfu yn gynharach ar y noson.

14. **COMIN BRYNCROES**
Cyflwr y Comin.

Yn gywir,

Gwenda Roberts

Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR**
**Y CYNGHORWYR**

| | | | |
|---|---|---|---|
| David Brunelli | Carys H. Evans | Elin Hughes | Gwenan Griffith |
| Dylan Parry Jones | Ifor Owen | Glyn Roberts | Michael Strain |
| Carys E. Williams | Glenys Williams | Siôn Williams | |